NCPTA

Polisi Iaith Gymraeg

Ar hyn o bryd, ar sefydliadau sector cyhoeddus yn unig y mae deddfwriaeth yn gosod gofyniad statudol yng Nghymru i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd[1]. Nid oes ar hyn o bryd unrhyw ymrwymiad cyfreithiol ar sefydliadau gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog.

Fodd bynnag, gydag ychydig o dan 800 o gymdeithasau o Gymru ymysg ein haelodaeth (44% o'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru), nod NCPTA yw darparu'r gefnogaeth fwyaf effeithiol i'r iaith Gymraeg, gan ddefnyddio'i adnoddau cyfyngedig mor effeithiol ag sy'n bosibl.

Ymchwil

Ym mis Mehefin, holwyd aelodau NCPTA yng Nghymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u defnydd o'r Gymraeg ac er mwyn asesu'r ffordd orau i NCPTA ganolbwyntio'i gefnogaeth.

Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein gydag aelodau yng Nghymru'n derbyn e-bost personol i gymryd rhan ynddo. Gydag ychydig o dan 800 o aelodau yng Nghymru a 700 o wahoddiadau'n cael eu hanfon trwy e-bost i gymryd rhan yn yr arolwg, derbyniwyd 100 o ymatebion (cyfradd ymateb o 15%).

Darganfu'r arolwg fod y mwyafrif o Gymdeithasau Rheini ac Athrawon yn defnyddio'r Saesneg yn unig, gan gynnwys mewn cyfarfodydd, ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig ac wrth hyrwyddo digwyddiadau i rieni. Ar hyn o bryd adroddir bod 27% o holl aelodau pwyllgorau cymdeithasau rhieni ac athrawon yn siaradwyr Cymraeg.

Mae hyn yn sylweddol fwy mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg lle adroddir bod 58% o aelodau pwyllgorau'r cymdeithasau yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r mwyafrif o Gymdeithasau mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg hefyd yn tueddu i weithredu'n ddwyieithog yn ogystal. Fodd bynnag, mae'r galw am i NCPTA gyfieithu adnoddau'n cael ei weld fel rhywbeth defnyddiol yn hytrach na phwysig iawn i'r mwyafrif o ymatebwyr o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg.

Mae'r alwad ar i rai, yn hytrach na'r mwyafrif neu'r cyfan, o adnoddau NCPTA gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yr un fath ym mhob rhan o'r aelodaeth yng Nghymru. Mae galw eglur ar i NCPTA ganolbwyntio ar ddarparu adnoddau dwyieithog i Gymdeithasau ar gyfer eu defnyddio gyda rhieni, newyddion penodol Gymreig i Gymdeithasau ac adnoddau allweddol NCPTA.

Ymrwymiad NCPTA

Bydd NCPTA yn defnyddio'i adnoddau i gynhyrchu'r canlynol yn ddwyieithog:

- Adnoddau i Gymdeithasau Rhieni ac Athrawon eu defnyddio gyda rhieni;
- Newyddion penodol Gymreig i Gymdeithasau; ac

[1] Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

- Adnoddau allweddol NCPTA

Bydd NCPTA hefyd yn:

- Sicrhau bod aelodau Cymru'n cael eu hysbysu'n gyson o unrhyw ofyniadau statudol a all ei gwneud hi'n ofynnol iddynt weithredu'n ddwyieithog;
- Cyfeirio aelodau at adnoddau a gwasanaethau cyfieithu addas;
- Holi aelodau Cymru ar eu defnydd o wasanaethau dwyieithog, a'r galw amdanynt, o leiaf unwaith bob tair blynedd; ac yn
- Cynnal ei ddealltwriaeth o ofyniadau cyfreithiol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y gwasanaethau a ddarperir i aelodau.

Hydref 2009

This NCPTA information sheet aims to provide clear advice but should only be considered as a general guide.
Further information sheets are available from **www.ncpta.org.uk** For more specific advice please contact info@ncpta.org.uk or 01732 375460.
NCPTA 39 Shipbourne Road Tonbridge Kent TN10 3DS **t** 01732 375460 **f** 01732 375461 **www.ncpta.org.uk**
Registered Charity no. 1072833. The NCPTA is a company limited by guarantee and registered in England no. 3680271.